# Wythnos 2 / Oed Meithrin
# Gwreiddiau ac Ystyr

## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** 'Duw a'm gwnaeth i, a dwi'n arbennig'

### Adnod allweddol:

**Effesiaid 2:10**

*'Duw sydd wedi'n gwneud ni beth ydyn ni. Mae wedi'n creu mewn perthynas â'r Meseia Iesu, i ni wneud yr holl bethau da mae e wedi'u trefnu ymlaen llaw i ni eu gwneud.'*

### Resources:

- Glôb mae modd ei chwythu i fyny, neu lun mawr o glôb
- Taflenni o bapur neu un rholyn hir o bapur
- Creonau neu binnau ffelt

# Gweithgaredd: Stori

Chwaraewch gêm o 'pi-po'. Gan orchuddio'ch wyneb â'r glôb, gwaeddwch: 'Duw a wnaeth y byd'. Yna codwch eich wyneb uwchben y glôb, a gwaeddwch: 'Gwnaeth Duw fi hefyd'. Ailadroddwch y ddwy linell uchod sawl gwaith, gan gael ychydig o hwyl gyda'r plant wrth wneud hyn. Yna gorchuddiwch eich wyneb â'r glôb unwaith yn rhagor, a dywedwch: 'Er iddo wneud y byd', ac eto codwch eich wyneb uwchben y glôb, a gwaeddwch: 'Y peth mwyaf pwysig a wnaeth oedd fi!'

**Y Stori**

Gan ddefnyddio'r darnau o bapur (neu un rholyn hir o bapur), tynnwch luniau i ddangos stori'r creu fesul cam - efallai bydd modd i chi osod y lluniau wedi eu pegio ar linyn wrth i chi eu cwblhau. Wrth i chi adrodd y stori gwnewch luniau o'r pethau rydych yn eu disgrifio.

Gallech roi creonau neu binnau ffelt i'r plant hefyd er mwyn iddyn nhw ychwanegu at y lluniau.

**Addasu ar gyfer Zoom**

- Sicrhewch fod gennych rai delweddau wedi'u paratoi ymlaen llaw i'w dangos ar y sgrin
- Efallai y gall plant sy'n gwylio gydag oedolyn dynnu llun ar bapur a allai fod ganddynt gartref wrth i chi adrodd y stori
- Gadewch iddyn nhw ddangos eu lluniau ar ôl pob cam

**Diwrnod 1**
(Ysgrifennwch a dywedwch) Diwrnod 1
Dywedodd Duw 'BYDDED GOLEUNI'.
Ac roedd yna oleuni.
(Gadewch i'r plant dynnu llun haul a golau neu baentio lliw melyn ar y dudalen.
***Symudiadau:*** gwnewch naid fawr siap seren.)
Gwahanodd Duw y golau o'r tywyllwch.
(Rhannwch dudalen arall o bapur yn ddau hanner, gan ysgrifennu 'NOS' ar un hanner, mewn lliw tywyll.
***Symudiadau:*** gall pawb gyrlio ar lawr gan esgus cysgu.)
Galwodd y tywyllwch yn 'nos'.
Galwodd Duw y goleuni yn 'ddydd'. Gwelodd Duw bopeth yr oedd wedi'i wneud a gweld ei fod yn dda. Roedd hi'n nos ac roedd hi'n fore. Diwrnod 1.
(Ar hanner arall y papur ysgrifennwch 'dydd'.
***Symudiadau:*** gall y plant neidio i fyny ac ymestyn fel petaent newydd ddeffro.)

**Diwrnod 2**
Yna dywedodd Duw 'gwahanwch y dyfroedd' a gwnaeth Duw awyr. (Tynnwch lun o fôr ar waelod eich tudalen ac yna lliw glas ar gyfer awyr - yna gadewch i'r plant ychwanegu lluniau cymylau at yr awyr. ***Symudiadau:*** beth am hedfan o gwmpas yr ystafell fel awyren.)
Gwelodd Duw bopeth yr oedd wedi'i wneud a gweld ei fod yn dda.
Roedd nos ac roedd dydd. Diwrnod 2

**Diwrnod 3**
Dywedodd Duw, 'Gadewch i dir sych ymddangos'.
Galwodd Duw y lle sych a ymddangosodd yn 'dir'.
(Tynnwch lun glaswellt ar hanner eich papur - ar y gwaelod yn unig.
***Symudiadau:*** gall y plant stampio eu traed ar y llawr.)
Galwodd Duw y dŵr yn fôr.
(Tynnwch lun cefnfor ar hanner arall y papur, ar y gwaelod yn unig.
***Symudiadau:*** gall plentyn esgus nofio.)
Dywedodd Duw, 'Gadewch i'r tir gynhyrchu planhigion. Gadewch iddyn nhw gynhyrchu hadau, a ffrwythau.' Felly dyma'r tir yn cynhyrchu planhigion, ac roedd gan bob un planhigyn ei had ei hun a'i ffrwyth ei hun.
(Tynnwch luniau coed a phlanhigion - gadewch i'r plant wneud hynny gan ychwanegu rhywfaint o ffrwythau ar y coed. Efallai y gallwch ofyn i'r plant beth yw eu hoff ffrwyth a gofyn iddynt dynnu llun ohono.
***Symudiadau:*** cychwynwch ar eich cwrcwd ac yna gwnewch siâp gwyro wrth i chi godi ar eich traed yn araf bach, fel petaech yn tyfu.)
Gwelodd Duw yr hyn a wnaeth, ac roedd yn dda.
Roedd bore ac roedd nos. Diwrnod 3

**Diwrnod 4**
Dywedodd Duw. 'Bydded goleuadau yn y gofod mawr yn yr awyr. Bydded i'r goleuadau hynny wahanu'r dydd oddi wrth y nos.'

(Tynnwch lun haul a lleuad ar ben darn o bapur.
***Symudiadau:*** gwnewch siâp hanner lleuad gyda'ch corff i ddangos y lleuad, a siâp seren lydan gyda'ch corff ar gyfer yr haul - yna symudwch yn gyflym rhwng y ddau siâp am ychydig o hwyl.)
Fe wnaeth y sêr hefyd.
(Ychwanegwch sêr at eich llun.
***Symudiadau:*** dywedwch wrth y plant i wneud siapiau seren â'u dwylo.)
Gwelodd Duw yr hyn a wnaeth, ac roedd yn dda.
Roedd bore ac roedd nos. Diwrnod 4

**Diwrnod 5**
Dywedodd Duw 'Gadewch i'r moroedd gael eu llenwi â phethau byw. Gadewch i'r adar hedfan uwchben y ddaear ar draws gofod enfawr yr awyr.'
Felly gwnaeth Duw bob creadur mawr a bach sy'n byw yn y môr, ac fe greodd bob math o adar sy'n hedfan.
(Tynnwch lun pysgod ac adar, pysgod ar waelod y papur ac adar ar y brig.
***Symudiadau:*** dywedwch wrth y plant am hedfan fel aderyn ac yna nofio fel pysgodyn, gan wneud symudiadau ceg fel pysgod.)
Gwelodd Duw yr hyn a wnaeth, ac roedd yn dda
Roedd bore ac roedd nos. Diwrnod 5

**Diwrnod 6**
Dywedodd Duw 'Gadewch i'r tir gynhyrchu pob math o greaduriaid byw.'
(Tynnwch luniau o wahanol anifeiliaid ar eich papur, gan wneud eu synau wrth i chi dynnu eu lluniau.
***Symudiadau:*** beth am gael ychydig o hwyl yn enwi anifeiliaid gwahanol yn syth ar ôl ei gilydd yn gyflym tra bod y plant yn ceisio dal i fyny a gwneud synau'r anifeiliaid hynny.)

YNA DYWEDODD DUW: 'Gadewch inni wneud pobl, a fydd yn debyg i fi. Nhw fydd yng ngofal yr holl anifeiliaid a phopeth arall yn y byd. '
(Tynnwch lun pobl - gallwch wneud lluniau o'ch teulu neu'ch ffrindiau.
***Symudiadau:*** edrychwch ar rannau gwahanol o'ch corff eich hun a dywedwch 'waw' ar ôl edrych ar wahanol ddarnau, e. e. edrychwch ar eich llaw a siglo eich bysedd a dweud, 'Fy llaw - waw!' Edrychwch ar eich braich a'i chwifio a dweud, 'Fy mraich - waw!')
Campwaith creadigaeth Duw oedd ein creu ni - ie, chi a fi!
(Tynnwch lun ohonoch chi a dywedwch WAW!)
Fe'n gwnaed yn union fel ef
(Tynnwch lun o Dduw a dywedwch WAW!)
Fe roddodd ni yng ngofal yr holl bethau eraill yr oedd wedi'u gwneud
(Tynnwch lun o'r pethau y creodd Duw o'ch cwmpas a dywedwch WAW!)
Gwelodd Duw yr hyn a wnaeth, ac roedd yn dda.
Roedd bore ac roedd nos. Diwrnod 6

(Dychwelwch i'r gêm pi-po)
(Gorchuddiwch eich wyneb â'ch glôb, a dywedwch:)
Gwnaeth Duw y byd
(Yna codwch eich wyneb uwchben y glôb, a dywedwch:)
Gwnaeth Duw fi
Ailadroddwch y ddwy linell uchod sawl gwaith, gan gael ychydig o hwyl gyda'r plant wrth wneud hyn.
(Gorchuddiwch eich wyneb â'ch glôb eto, a dywedwch:)
Er iddo wneud y byd
(Yna codwch eich wyneb uwchben y glôb, a dywedwch:)
Y peth mwyaf pwysig a wnaeth oedd fi.

# Gweddi greadigol

Os yn bosibl, ewch â'r plant am dro tu allan er mwyn iddynt ddod o hyd i bethau a grëwyd gan Dduw. Gall hyn fod yn blanhigyn, blodau, mes o'r coed, cerrig, mwd, rhisgl coed, dail, dŵr mewn pwll ag ati. Os nad yw hyn yn bosibl, yna casglwch yr eitemau hyn cyn y sesiwn er mwyn eu dangos. Gwahoddwch y plant i ddal / cyffwrdd yr eitemau, er mwyn eu teimlo wrth i chi weddïo'r weddi ganlynol:

**Gweddïwn**

*Diolch i ti, Dduw, am yr holl bethau a wnest ti wrth greu'r byd.*

*Diolch i ti am fy ngwneud i.*

*Diolch fy mod i'n arbennig yn dy olwg.*

*Amen*